Centre of expertise on child sexual abuse

SEEN.

# Cam-drin plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd yn rhywiol: Adolygiad o wybodaeth

## Crynodeb gweithredol

Sukhwant Dhaliwal



Gorffennaf 2024

csacentre.org.uk

## Ynglŷn â'r awdur

Mae Dr Sukhwant Dhaliwal yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn Uned Astudiaethau Cam-drin Plant a Menywod ym Mhrifysgol Metropolitan Llundain. Yn ogystal, hi yw Arweinydd y Cwrs MA ar raglen Cam-drin Plant a Menywod. Gweithiodd Sukhwant dros 10 mlynedd yn y sector gwirfoddol menywod, yn enwedig ar gyfer mudiadau menywod lleiafrifiedig arbenigol sy'n cefnogi menywod a phlant sy'n ffoi rhag trais a chamdriniaeth. Ers symud i faes ymchwil a'r byd academaidd, mae hi wedi gweithio ar dros 20 o brosiectau ymchwil sy'n cwmpasu croestoriad 'hil' ac elfennau cydraddoldeb eraill (rhywedd, oedran, anabledd, crefydd a chred) â materion cymdeithasol, yn ogystal ag ar atal trais rhywiol, ffwndamentaliaeth grefyddol a radicaleiddio. Mae hi'n parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid ffeministaidd ar ysgrifennu ac ymchwil.

## Ynglŷn â'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh)

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy'n cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn www.csacentre.org.uk

## Ynglŷn â SEEN Barnardo's

Mae SEEN, sef gwasanaeth sy'n cael ei redeg gan Barnardo's, yn Ganolfan sy'n cael ei llywio i greu sylfaen wybodaeth graidd, rhwydwaith o bobl ac eiriolaeth ar gyfer y rhai sydd â phrofiadau dilys. Cenhadaeth y Ganolfan yw nodi, deall a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol sy'n cyfyngu ar gyfleoedd plant a phobl ifanc o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd yn y DU drwy gyflawni newid yn y system o ran darparu gwasanaethau i fynd i'r afael â'r canlyniadau anghymesur sy'n eu hwynebu.

**Ein Cenhadaeth** yw creu newid systemig drwy herio anghydraddoldebau strwythurol sy'n rhwystro cyfleoedd ar gyfer dyfodol teg a chyfiawn i blant a phobl ifanc o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd i gyflawni eu potensial llawn.

**Ein Gweledigaeth** yw sicrhau bod strwythurau pŵer y DU yn darparu gofal, cyfle a dealltwriaeth deg i blant a phobl ifanc o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd. Byddwn yn gwneud hyn mewn partneriaeth ag eraill ar draws pob sector, gan ddeall na allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain.

**Ein nod** yw creu canlyniadau gwell ar gyfer mwy o blant a phobl ifanc o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd. Rydyn ni'n gweithio i feithrin teuluoedd cryfach, plentyndod mwy diogel a dyfodol positif.

I gael gwybod mwy, ewch i https://weareseen.org.uk/

# Crynodeb gweithredol

Yr adolygiad hwn o wybodaeth yw'r cyntaf i gynnig trosolwg cyfoes o ymchwil cyhoeddedig mewn perthynas â cham-drin plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd yn rhywiol. Mae'n amlinellu beth mae'r ymchwil hwn yn ei ddweud am natur y cam-drin, ei effeithiau, y rhwystrau sy'n atal plant rhag sôn amdano a sut mae pryderon amdano yn cael eu nodi ac yr ymatebir iddynt – o fewn cymunedau a gwasanaethau. Yr un mor bwysig, mae'n nodi bylchau sylweddol mewn gwybodaeth a dealltwriaeth, ac yn argymell sut gellir mynd i'r afael â'r rhain.

Wedi'i gomisiynu gan y Ganolfan arbenigol ar gam-drin plant yn rhywiol (y Ganolfan CPRh) a Chanolfan SEEN Barnardo's ar gyfer plant a phobl ifanc o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd, cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan Uned Astudiaethau Cam-drin Plant a Menywod ym Mhrifysgol Metropolitan Llundain. Yn ogystal ag archwilio 79 o gyhoeddiadau (gan gynnwys astudiaethau ymchwil, erthyglau cyfnodolion, penodau llyfrau a llenyddiaeth 'lwyd') a oedd yn ymwneud â 59 o brosiectau ymchwil neu werthuso gwahanol, casglodd wybodaeth am ymchwil barhaus a daeth â phedwar grŵp ffocws at ei gilydd gan gynnwys pobl o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd a oedd â gwybodaeth am gam-drin plant yn rhywiol fel academyddion/ymchwilwyr, ymarferwyr ac 'arbenigwyr drwy brofiad'.

## Trosolwg o'r llenyddiaeth ymchwil

Roedd y cyhoeddiadau a adolygwyd yn dyddio rhwng 1988 a 2023. Ceir siâp i'w cynnwys a'u nifer, gyda'r blynyddoedd diwethaf yn gweld twf cyflym yn nifer y cyhoeddiadau. Dim ond nifer fach o astudiaethau a gyhoeddwyd hyd at y 2000au cynnar. Roedd y cyfnod rhwng 2010 a 2015 yn canolbwyntio'n bennaf ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd; wedi hynny, gwelwyd symudiad tuag at sôn am gam-drin plant yn rhywiol a thrais rhywiol yn ehangach.

Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau a gyhoeddwyd yn seiliedig ar ymchwil ansoddol ac ar raddfa fach. Roeddent fel arfer yn canolbwyntio ar un grŵp ethnig penodol neu ar gamdriniaeth mewn lleoliad penodol fel sefydliadau crefyddol, gyda phwyslais ar brofiadau menywod a merched; roedd profiadau penodol bechgyn yn absennol gan fwyaf. Ychydig iawn oedd yn cynnwys dadansoddiad meintiol o samplau mwy. O ganlyniad, mae'r llenyddiaeth yn dweud wrthym am natur y cam-drin rhywiol a wynebwyd gan blant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd a'r cyd-destunau y mae'n digwydd ynddynt, ond nid ei faint.

Canfu'r astudiaeth fod cam-drin plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd yn rhywiol, yn bennaf y rhai o dreftadaeth Gogledd India a Phacistanaidd, wedi cael mwy o sylw ymchwil na cham-drin rhywiol plant o dreftadaeth Affricanaidd a Charibïaidd: dim ond pedair astudiaeth a ganolbwyntiodd yn unswydd ar ddioddefwyr/goroeswyr Affricanaidd, a phedair arall ar ddioddefwyr/goroeswyr Du Caribïaidd. Ar ben hynny, prin iawn fu'r sylw i blant o dreftadaeth Affricanaidd, Dwyrain Asia a De-ddwyrain Asia.

Prin oedd yr ymchwil a oedd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd; roedd y rhan fwyaf yn dibynnu ar straeon oedolion a oedd yn ddioddefwyr/goroeswyr neu'n ymarferwyr, neu wrth ddadansoddi ffeiliau achos plant. Yr astudiaethau a oedd yn cynnwys yr ymgysylltiad uniongyrchol mwyaf â phlant fel cyfranogwyr ymchwil oedd y rhai am drais rhywiol a oedd yn gysylltiedig â gangiau, un ar gam-drin o fewn y teulu, a dau ar brofiadau plant dan oed ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches.

Er bod nifer o'r astudiaethau'n cynnwys trafodaeth ar ymatebion gwasanaethau i gam-drin plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd yn rhywiol, dim ond tri gwerthusiad a gafwyd o wasanaethau cymorth neu ymyriadau.

# Dadansoddiad thematig

## Natur a chyd-destunau'r cam-drin rhywiol a brofwyd gan blant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd.

Cynhyrchodd tair astudiaeth ar raddfa fwy ddata ar gam-drin rhywiol mewn cymunedau De Asiaidd penodol – Sikh a Tamil – ond nid oedd unrhyw astudiaethau tebyg o ran cymunedau Affricanaidd neu Garibïaidd

Canolbwyntiodd un ar ddeg o astudiaethau ar **gamfanteisio'n rhywiol ar blant**. Canfu'r rhai a oedd yn ymwneud â merched De Asiaidd a Mwslimaidd gysylltiadau rhwng camfanteisio rhywiol, priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd; cafwyd cipolwg ar sut mae camfanteisio rhywiol yn digwydd a nodwyd diffygion ymarferwyr. Nid oedd unrhyw ymchwil tebyg ar blant o dreftadaeth Affricanaidd a Charibïaidd.

Cyflwynwyd tystiolaeth ymchwil ar nodweddion penodol profiadau Affricanaidd a Charibïaidd mewn astudiaethau ar raddfa fawr ar gamfanteisio rhywiol neu drais difrifol ymhlith pobl ifanc. Wrth wneud cyfraniad sylweddol at wybodaeth am drais rhywiol o fewn ac ymhlith gangiau, rôl israddol menywod/merched oddi mewn iddynt a normaleiddio trais rhywiol o fewn cymdogaethau sydd wedi'u heffeithio gan gangiau, prin oedd y dadansoddiad am hiliaeth yn y rhain.

Wrth chwilio yn y llenyddiaeth, ni ddatgelwyd unrhyw ymchwil gyhoeddedig am gam-drin plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd yn rhywiol mewn **cyd-destunau ar-lein**, ond pryder cynyddol am y twf.

Bu pedair astudiaeth ar raddfa fach yn trafod nodweddion penodol cam-drin rhywiol o fewn **lleoliadau crefyddol** lleiafrifiedig. Tynnwyd sylw at ddiffyg cosb cyflawnwyr yn y lleoliadau hyn, o ganlyniad i bŵer arweinwyr crefyddol a'r cysylltiadau clos rhwng teuluoedd, busnesau a sefydliadau crefyddol. Tynnwyd sylw hefyd at ddiffyg unrhyw fesurau diogelu ffurfiol yn y lleoliadau hyn.

Dim ond dwy erthygl a ganolbwyntiodd ar brofiadau **plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches**, gan ddatgelu'r lefelau uchel o gam-drin rhywiol a brofwyd gan y plant hyn yn eu gwledydd gwreiddiol, ar eu siwrnai i'r DU ac yn y DU.

## Rhwystrau rhag datgelu, adnabod ac ymateb

Archwiliodd astudiaethau yn yr adolygiad ystod o rwystrau i ganfod a datgelu'r gamdriniaeth.

**Rhwystrau iaith:** Ystyriodd yr astudiaethau a ganolbwyntiodd ar gymunedau De Asiaidd y prinder gwasanaethau cyfieithu ar y pryd priodol; defnydd problematig o aelodau'r teulu a'r gymuned fel cyfieithwyr; diffyg geirfa i ddisgrifio trais rhywiol; a fframio trais rhywiol, mewn ieithoedd De Asiaidd, mewn ffyrdd sy'n gwneud dioddefwyr benywaidd yn gyfrifol amdano.

**Pwysau teuluol a chymunedol:** Gan ganolbwyntio hefyd ar gymunedau De Asia, archwiliodd sawl astudiaeth themâu cywilydd, anrhydedd a phwysau cymunedol, a sut maent yn rhwystro datgelu a chael cymorth. Nododd yr astudiaethau hyn ar raddfa fach, a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth gan oroeswyr benywaidd sy'n oedolion, sut mae cynnal anrhydedd teuluol yn perthyn i fenywod, a thrwy hynny'n eu tawelu i bob pwrpas; dimensiynau rhywedd penodol normau diwylliannol sy'n blaenoriaethu'r teulu dros yr unigolyn; a normaleiddio trais yn erbyn menywod sy'n gwneud cyflawnwyr yn 'anghyffyrddadwy' ac sy'n rhwystr i enwi a riportio'r cam-drin.

**Hiliaeth a'r pwysau i fod yn gryf ac yn dawel:** Canfu'r ychydig gyhoeddiadau ar fenywod Affricanaidd-Caribïaidd ddisgwyliad y dylai dioddefwyr/goroeswyr gadw'n dawel am y cam-drin o fewn y cartref i ddiogelu'r uned deuluol yn wyneb hiliaeth, rhywiaeth a thlodi economaidd-gymdeithasol; at hynny, cafodd mamau Du drafferth gyda theyrngarwch rhanedig rhwng eisiau gwarchod eu plant a pheidio â bradychu'r teulu neu'r gymuned wrth ofyn am gymorth. Cyfrannodd profiadau gwael gyda gwasanaethau statudol, ynghyd â hiliaeth gymdeithasol, at y teimladau hyn o wrthdaro a phwysleisiodd y rôl bwysig y gall rhwydweithiau teuluol estynedig ei chael ym mywydau plant drwy roi mynediad i oedolion cefnogol.

**Alinio rhwystrau mewnol ac allanol:** Archwiliodd rhai astudiaethau sut mae rhwystrau mewnol (diffyg dealltwriaeth/ ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol o fewn cymunedau, pwysau i gydymffurfio â rolau rhywedd a syniadau o anrhydedd a chywilydd) a rhwystrau allanol (tlodi, statws mewnfudo ansicr, ymwybyddiaeth brin o wasanaethau cymorth, diffyg ffydd mewn gwasanaethau a hiliaeth) yn gweithredu gyda'i gilydd i dawelu dioddefwyr. Nodwyd cywilydd a stigma fel rhwystrau allweddol o ran riportio, a gwnaeth yr astudiaethau gysylltiadau rhwng cysylltiadau rhwng y rhywiau o fewn cymunedau lleiafrifiedig a thawelu cam-drin rhywiol.

**Rôl rhieni nad ydynt yn cam-drin:** Roedd y portread arferol o rieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin (menywod fel arfer) yn y llenyddiaeth yn negyddol, a'u darlunio fel rhai sy'n gwadu, yn gysylltiedig neu'n gamdrinwyr. Nododd rhai astudiaethau y stereoteipio hiliol prif ffrwd o'r 'fenyw Ddu gref', ochr yn ochr â straeon goroeswyr a oedd yn beio eu mamau am beidio â'u hamddiffyn ac, mewn rhai achosion, am ymateb yn dreisgar i ddatgeliadau. Canfuwyd bod croestoriad hil, rhywedd a dosbarth yn rhoi pwysau gwrthgyferbyniol ar famau Du, gan arwain at deyrngarwch rhanedig a chyfyng-gyngor materol ac emosiynol; roeddent yn aml yn ddibynnol yn ariannol ar y dynion a oedd wedi cyflawni'r cam-drin. Roedd eraill yn cael trafferth llywio amgylcheddau anghefnogol a gelyniaethus i gael cymorth i'w plant ac roeddent yn "destun craffu dwys" ac yn cael eu labelu fel "anweithredol ac ansefydlog". Amlygodd y llenyddiaeth ar famau Asiaidd rôl rhwydweithiau trawswladol lle cafodd dioddefwyr neu gamdrinwyr eu hanfon dramor a/neu cafodd y dioddefwyr eu gorfodi i briodi er mwyn osgoi datgelu cam-drin plant yn rhywiol.

## Effeithiau ar ddioddefwyr/goroeswyr

Prin oedd unrhyw astudiaethau a ganolbwyntiodd ar effeithiau hirdymor cam-drin plant yn rhywiol ar iechyd corfforol a meddyliol plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd – maes arall sydd heb ei ymchwilio'n ddigonol. Nododd rhai arolygon ymhlith menywod sy'n oedolion broblemau gydag iselder, gorbryder a pherthnasoedd agos. Cynigiodd pedair astudiaeth ambell gipolwg ar effaith cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod ar deimladau menywod Affricanaidd-Caribïaidd am eu hunain a'u cyrff, gydag un yn cynnig trafodaeth fanwl, ddamcaniaethol a chysyniadol ar waddol cam-drin rhywiol ar y corff ac ymdeimlad merched o'u hunain.

## Gwasanaethau ar gyfer grwpiau lleiafrifiedig ac ymyriadau

Pwysleisiwyd yr angen am – a'r diffyg – gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd mewn nifer o astudiaethau ymchwil. Gwnaed awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau arbenigol penodol, gan gynnwys 'mannau siarad' diogel, llinellau cymorth pwrpasol a llochesi. Roedd yr ychydig astudiaethau a oedd yn cynnwys dioddefwyr/goroeswyr a oedd â mynediad at y gwasanaethau arbenigol hyn yn pwysleisio'r agweddau positif ar eiriolaeth yn wyneb hiliaeth strwythurol, perthnasedd ag eraill a oedd yn deall eu diwylliant a'u crefydd, a'r mannau hyblyg a diogel y mae gwasanaethau o'r fath yn eu cynnig.

Roedd tri gwerthusiad o ymyriadau gyda chymunedau penodol, gan gynnwys rhaglen hyfforddi, yn sôn ar yr hyn a 'weithiodd' i newid agweddau o fewn y gymuned, gan gynnwys defnyddio enghreifftiau o achosion o fywyd go iawn, deall bywydau'r bobl dan sylw a gwerth rhwydwaith cymorth. Nodwyd bod y rhain yn unig yn annigonol i achosi newid.

## Ymatebion i wasanaethau prif ffrwd

Mae nifer o astudiaethau yn mynd i'r afael ag ansawdd gwael gwasanaethau – gwasanaethau cymdeithasol plant yn bennaf – ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr. Roedd y rhain yn nodi diffyg ymddiriedaeth cyffredinol mewn gwasanaethau oherwydd hiliaeth. Bu rhai yn ystyried ymatebion gwasanaethau i ferched Du - yn fwy tebygol o gael eu cynnwys drwy brosiectau cosbedigol yn ymwneud â gangiau a thrais difrifol ymhlith pobl ifanc a oedd yn troseddoli eu hymddygiad - a sut roeddent yn dioddef hiliaeth a rhywiaeth ar yr un pryd. O ran gweithio gyda merched a menywod ifanc Asiaidd, roedd gweithwyr proffesiynol yn ofni cael eu cyhuddo o ansensitifrwydd diwylliannol a hiliaeth, a chanfuwyd eu bod yn blaenoriaethu pryderon am ddeinameg teuluol a diwylliannol dros ddiogelu plant.

Dim ond tri o'r papurau a adolygwyd a ystyriodd ymateb yr heddlu i gam-drin merched a menywod Asiaidd neu Fwslimaidd yn rhywiol, gan amlygu arfer gwael eang a diffyg dealltwriaeth o'r pwysau penodol ar ddioddefwyr/goroeswyr Asiaidd. Nid oedd unrhyw astudiaethau yn gofyn am farn na phrofiadau plant o dreftadaeth Affricanaidd a Charibïaidd am blismona a'r system cyfiawnder troseddol.

Wrth chwilio drwy'r llenyddiaeth, prin y datgelwyd unrhyw ymchwil gyhoeddedig ar yr ymateb i gam-drin plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd yn rhywiol o fewn y sectorau addysg ac iechyd. Nododd rhai astudiaethau gyda goroeswyr oedolion duedd gwasanaethau iechyd i feddygoli symptomau cam-drin a thrawma, ac argymhellwyd bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn gofyn cwestiynau uniongyrchol am achosion sylfaenol y symptomau hyn.

### Croestoriadedd

Aeth nifer fach o astudiaethau i'r afael â'r croestoriad rhwng hil/ethnigrwydd â rhyw neu anabledd. Dim ond un archwiliodd brofiadau plant Du anabl, gan amlygu eu diffyg llais: efallai na fydd gan y plant hyn y gallu i egluro beth sydd wedi digwydd, neu efallai nad ydynt wedi derbyn yr addysg rhyw i'w ddeall, ac efallai y bydd gweithwyr cymdeithasol yn priodoli'r arwyddion o gam-drin rhywiol i anabledd y plentyn. Er nad oes unrhyw astudiaethau wedi archwilio profiadau plant anabl o dreftadaeth Indiaidd, nododd rhai y cyfeirir yn aml at anabledd mewn samplau ymchwil.

Canolbwyntiodd dwy astudiaeth ar brofiadau bechgyn Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol, gan amlygu'r pryderon am homoffobia fel mater penodol iddynt. Gwelwyd bod dioddefwyr/goroeswyr De Asiaidd yn wynebu normau rhywedd gwahanol: tra bod menywod yn cael eu cyhuddo o brofocio eu camdriniaeth, gwneir i ddynion gredu y dylent fod wedi'i atal. Gan adleisio ymchwil ar fenywod Affricanaidd-Caribïaidd sydd wedi goroesi cam-drin rhywiol, canfu'r ymchwil ar ddynion fod cyd-destunau andwyol ar gyfer teuluoedd Du yn golygu y disgwylir i fechgyn wynebu caledi o bob math.

## Ymchwil parhaus

Nodwyd saith prosiect ymchwil parhaus, pob un ohonynt mewn prifysgolion, fel rhan o'r astudiaeth hon; pump fel rhan o astudiaeth PhD. Roedd pob un o'r saith prosiect yn ansoddol, yn bennaf yn cynnwys cyfweliadau â dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion a/neu ymarferwyr, ac yn cynnwys samplau bach. Roedd y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar gam-drin plant yn rhywiol o fewn cymunedau De Asiaidd, a dau gyda phobl ifanc Affricanaidd a Charibïaidd.

Ychydig iawn o'r bylchau gwybodaeth a nodwyd oedd yn cael sylw gan y prosiectau parhaus hyn. Roedd lefel y cyllid a'r adnoddau a oedd ar gael yn amlwg yn pennu cwmpas cyfyngedig yr ymchwil.

## Sesiynau grŵp ffocws

Yn y pedair sesiwn grŵp ffocws gydag ymarferwyr treftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd, academyddion/ymchwilwyr ac arbenigwyr o brofiad, amlygodd y cyfranogwyr bryderon nad oedd ymchwil wedi trosi'n newid ansoddol/newid yn narpariaeth y gwasanaethau; bod gwasanaethau statudol a'r llysoedd yn gofyn am farn 'arweinwyr crefyddol' ac yna'n ildio i wadu'r cam-drin rhywiol; a bod ymatebion gwasanaethau yn wael. Wrth drafod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, bu cyfranogwyr hefyd yn rhannu eu profiadau personol o weithio ym maes cam-drin plant yn rhywiol, a oedd yn risg personol mawr iddynt yn aml.

Cafodd galwadau eu gwneud i godi ymwybyddiaeth a chynyddu darpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am fwy o ddysgu ar sut i newid normau, gwerthoedd ac arferion sy'n gwneud cam-drin plant yn rhywiol yn ddilys o fewn cymunedau amrywiol. Roeddent hefyd yn tanlinellu'r angen am ymchwil gymhwysol a all gynnig cyfeiriad clir ar fylchau mewn gwasanaethau, ac ymchwil effeithiol y gellir ei defnyddio i ddatblygu ymatebion i wasanaethau neu ymyriadau newydd.

Er bod nifer o randdeiliaid wedi awgrymu bod angen mwy o ymchwil ar natur benodol camdriniaeth o fewn cymunedau Affricanaidd, Dwyrain Canol Asia, De-ddwyrain Asia ac America Ladin a'r mecanweithiau tawelu sy'n cael eu profi yn y cymunedau hynny, roedd eraill yn poeni am ddadgyfuno'r profiad Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd. Roeddent yn dadlau y gallai unrhyw brofiadau sy'n cael eu rhannu a themâu cyffredin – yn arbennig hiliaeth strwythurol a sefydliadol ac ymatebion gwael y wladwriaeth – gael eu bychanu.

Nododd y grwpiau ffocws hefyd nifer o feysydd eraill ar gyfer ymchwil yn y dyfodol (y cyfeirir atynt isod) er mwyn deall maint a natur cam-drin plant yn rhywiol ac ymatebion gwasanaethau yn well, gan adlewyrchu'r bylchau a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth.

## Mynd i'r afael â bylchau yn y wybodaeth

Amlygodd yr adolygiad llenyddiaeth, yr arolwg o ymchwil barhaus a'r grwpiau ffocws fylchau sylweddol yn y wybodaeth am gam-drin plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd yn rhywiol. Gallai'r meysydd ymchwil a'r gweithgareddau canlynol helpu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

### Sefydlu rhwydwaith ymchwil ac ymarfer

Dylai'r Ganolfan CPRh gynnull a hwyluso rhwydwaith ymchwil ac ymarfer ar gyfer pobl o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd sy'n gweithio ym maes cam-drin plant yn rhywiol. Gallai hyn hwyluso prosiectau cydweithredol rhwng pobl sy'n gweithio ar draws gwahanol feysydd pwnc ac ar draws ymchwil ac ymarfer.

### Cofnodi lleisiau plant

Mae angen astudiaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phlant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol, er mwyn casglu gwybodaeth am:

- y cyd-destunau y caiff y plant hyn eu cam-drin yn rhywiol
- eu profiadau o adnabod, enwi a riportio'r cam-drin
- ymateb gwasanaethau i'r cam-drin
- yr effeithiau iechyd, o ran y cam-drin a chael eu tawelu
- croestoriad cam-drin rhywiol gydag oed, rhywedd ac anabledd
- beth yw arfer da.

## Cynhyrchu setiau data mwy

Mae angen ymchwil sy'n cynnwys setiau data mwy. Gellid gwneud hyn drwy weithio gyda mudiadau'r sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol i gasglu a dadansoddi'n systematig nifer fawr o ffeiliau achos yn ymwneud â phlant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol.

Gallai opsiynau eraill gynnwys casglu neu gloddio data am hanesion, trawsgrifiadau cyfweliadau a nodiadau ffeiliau achos o brosiectau neu fentrau ymchwil a gwblhawyd.

## Llenwi'r bylchau yn y wybodaeth am gymunedau penodol

Mae angen mwy o ymchwil sy'n ymwneud â phlant o dreftadaeth Dwyrain Asia, De-ddwyrain Asiai ac Affricanaidd sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol. Awgrymodd y grwpiau ffocws fod gan sefydliadau cymunedol ddiddordeb mewn dechrau trafodaethau am gam-drin plant yn rhywiol o fewn eu cymunedau, ac y gallent, o bosib, helpu i gyflwyno astudiaethau ar raddfa fawr.

## Deall cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau penodol

Nid oes unrhyw astudiaeth wedi'i chyhoeddi hyd yma sy'n mynd i'r afael â cham-drin rhywiol mewn **cyd-destunau ar-lein** o ran plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd. Mae angen ymchwil i sefydlu maint a natur y cam-drin hwn a phrofiadau penodol y plant hynny.

Er bod pryder cynyddol am rôl **arferion crefyddol a sefydliadau crefyddol** o ran cam-drin plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd yn rhywiol, mae ymchwil hyd yma wedi bod yn seiliedig ar samplau bach iawn. Gallai gwaith â mwy o bwyslais ar sefydliadau ac arweinwyr crefyddol archwilio'r haenau o fod yn gysylltiedig ac o ddiffyg cosb o ran y sefydliadau hyn a'u cynrychiolwyr, er enghraifft, ac effaith y cysylltiadau rhwng arweinwyr crefyddol ac aelodau'r teulu, dynion busnes a gwleidyddion.

Ychydig iawn o ymchwil a wnaed i **ddimensiynau rhyngwladol camdriniaeth**. Mae pynciau ymchwil posib yn cynnwys profiadau plant o gam-drin rhywiol yn Lloegr a sut mae hyn yn gysylltiedig â'u gwledydd gwreiddiol; dylanwad rhwydweithiau diasporig wrth atgyfnerthu normau diwylliannol sy'n gwadu camdriniaeth; effeithiau gwahanu'r teulu; a symudiad dioddefwyr a chyflawnwyr ar draws ffiniau.

I gloi, cafwyd diffyg ymchwil i effaith **mewnfudo a rheolaethau'r ffin** ar blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol, ac ar gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau lle mae gan y wladwriaeth Brydeinig **ddyletswydd gofal** tuag at blentyn.

### Amlygu argaeledd gwasanaethau ac ymatebion

Mae'r llenyddiaeth ymchwil a gyhoeddwyd ar ymatebion gwasanaethau i gam-drin plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd yn rhywiol wedi canolbwyntio'n gyfan gwbl bron ar waith cymdeithasol, gyda llawer llai o sylw yn cael ei roi i wasanaethau plismona, addysg ac iechyd. At hynny, mae'r ymchwil wedi'i chyfyngu'n gyffredinol i hiliaethu gwahaniaethol gweithwyr cymdeithasol o blant lleiafrifiedig, camgydnabod camdriniaeth a'r rhwystrau i dderbyn gwasanaethau; mae angen mwy o wybodaeth ar lwybrau plant o dreftadaeth Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd i mewn i'r gwasanaethau a thrwyddynt.

Yn ogystal, ychydig iawn o fudiadau gwirfoddol sy'n canolbwyntio ar y plant hyn, ac mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu gorlethu gan atgyfeiriadau.

Er bod y Ganolfan CPRh wedi nodi darpariaeth gwasanaethau cymorth yn ddiweddar ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr cam-drin rhywiol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, mae angen mwy o ymchwil i archwilio'r mathau o ddarpariaeth mewn sefydliadau arbenigol a phrif ffrwd – ac mae angen i wasanaethau gynnal data proffil am ddefnyddwyr eu gwasanaethau, gan gynnwys ethnigrwydd.

### Deall effeithiau ar iechyd

Mae yna gorff sylweddol o ymchwil ar effeithiau hirdymor (yn enwedig i ferched a menywod) cam-drin rhywiol a thrais rhywiol ac ar effeithiau iechyd ac economaidd-gymdeithasol hiliaeth, ond hyd yma nid yw'r ddau fater hyn wedi cael eu hystyried gyda'i gilydd. Mae angen gweithredu i unioni hyn.

### Codi ymwybyddiaeth y gymuned a newid normau diwylliannol

Mae angen ymchwil i weld sut gellir mynd i'r afael â mecanweithiau tawelu mewn rhai cymunedau ac agor 'lleoedd i siarad'. Mae hyn yn gofyn am brosiectau hirdymor a all greu ymyriadau priodol a gwerthuso eu heffaith, gan weithio gyda sefydliadau sydd wedi ennill eu plwyf mewn cymunedau lleol a helpu i feithrin eu gallu.

## Casgliadau

Drwy ddefnyddio'r adolygiad llenyddiaeth yn ogystal â thrafodaethau â rhanddeiliaid, mae'r adolygiad hwn wedi nodi meysydd ymchwil a phrosiectau posib a allai helpu i gau'r bylchau gwybodaeth a nodwyd.

Bydd archwiliadau ac astudiaethau pellach yn cefnogi gwaith ataliol gyda phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol; codi ymwybyddiaeth o fewn cymunedau Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd o ddigwyddedd ac effaith cam-drin plant yn rhywiol; a helpu gwasanaethau, statudol a gwirfoddol, i gynllunio ymatebion ac ymyriadau sy'n cefnogi plant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol yn well.

Dim ond drwy gyllid digonol ar gyfer ymchwil yn y dyfodol y gellir cyflawni hyn, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r meysydd hyn a sefydlu ymyriadau sy'n gweithio.

**Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn [www.csacentre.org.uk/research-resources/research-evidence/supporting-victims-survivors/](www.csacentre.org.uk/research-resources/research-evidence/supporting-victims-survivors/)**

Centre of expertise on child sexual abuse

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio
actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre.org.uk | 𝕏 @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

25175shc24